Philip Thomas Byard (Tubby) Clayton1885–1972
Offeiriad a sylfaenydd Toc H

Ganwyd Philip Thomas Byard Clayton yn Maryborough, Queensland, Awstralia, ar 12 Rhagfyr 1885 yn chweched plentyn i Reginald ac Isobel. Gweithiai ei dad fel rheolwr planhigfa siwgr. Pan nad oedd ond blwydd oed symudodd y teulu i fyw i Loegr pan gafodd ei dad swydd fel asiant yn y Ddinas yn Llundain yn mewnforio nwyddau o Awstralia. Addysgwyd Clayton yn Ysgol St Paul's ac yng Ngholeg Caerwysg (Exeter), Rhydychen. Enillodd radd yn y clasuron ac yna gradd dosbarth cyntaf mewn diwinyddiaeth. Fe'i gwnaed yn ddiacon ym 1910 a'r flwyddyn ddilynol fe'i hordeiniwyd i'r offeiriadaeth.

Dechreuodd ar y weinidogaeth ym mhlwyf St Mary, Portsea, ac yna pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf gwirfoddolodd fel caplan a gweithiodd mewn ysbytai yn Ffrainc. Roedd y prif gaplan Neville Talbot yn chwilio am rywun i sefydlu cartref gorffwys i filwyr ar eu taith i'r ymgyrch yn Ypres. Cymerodd Clayton at y syniad yn frwdfrydig. Gyda'i gilydd daethant ar draws plasty gwag yn Poperinghe a thrawsnewidiwyd ef i fod yn Talbot House. Enwyd y ganolfan ar ôl brawd Neville Talbot a fu farw yn y rhyfel ychydig fisoedd ynghynt. Defnyddiwyd y plasty gan filoedd o filwyr. Yr oedd ynddo ystafell fwyta, ystafelloedd hamddena ac ysgrifennu, llyfrgell, ystafell i'r caplan a chapel. Daethpwyd i'w alw yn TH neu yn ôl iaith y signalwyr Morse yn Toc H. Defnyddiai Clayton, neu Tubby fel y'i gelwid, y tŷ fel man i ymweld â'r milwyr oedd ar flaen y gad. Gweithiodd yn ddiflino ac yn llawn egni gyda'r milwyr yn ystod y rhyfel a daeth miloedd ohonynt i werthfawrogi ei gyfraniad. Anrhydeddwyd ef gyda'r MC ym 1917.

Wedi iddo ddychwelyd i Loegr sefydlodd ysgol hyfforddi gweinidogion mewn hen garchar yn Knutsford. Gweithiai yno fel tiwtor a chaplan a thros y blynyddoedd ordeiniwyd 435 o offeiriaid o'r ysgol. Sefydlodd hefyd Talbot House yn Llundain ym 1920 a chychwyn y mudiad Toc H. Prif flaenoriaethau Toc H oedd cyfeillgarwch, gwasanaeth, tegwch meddwl a theyrnas Duw ac erbyn 1922 roedd deugain o ganghennau.

Rhoddodd Archesgob Caergaint, Randall Davidson, ofalaeth All Hallows by the Tower iddo ym 1923 i fod yn ganolfan ysbrydol i Toc H ac arhosodd yno yn ficer hyd 1963. Ym 1923 cyneuwyd lamp, a ddaeth yn arwyddlun, tros y mudiad gan Dywysog Cymru yn Neuadd Albert. Aeth Clayton ar deithiau codi arian byd-eang. Tyfodd y mudiad yn aruthrol ac yn y diwedd roedd ganddynt fil o ganghennau yng ngwledydd Prydain, cannoedd dramor a chymdeithas merched gref. Aeth ar daith i Rhodesia a De Affrica ym 1934 ac o ganlyniad fe aeth yn sâl yn feddyliol. Daeth ato'i hun wedi blwyddyn yn Belgaum, India, gyda'i frawd Sir Hugh Clayton.

Yn ystod blynyddoedd cynnar yr Ail Ryfel Byd roedd yn yr Orkney gyda'r Llynges Frenhinol yn sefydlu clybiau Toc H yn Scapa Flow. Dinistriwyd eglwys All Hallows gan ffrwydron ym 1940 a rhoddwyd iddo gaplaniaeth fflyd tanceri'r Anglo-Saxon Petroleum a chyda hwy teithiodd i wahanol lefydd yn America. Teithiodd wedyn gyda'r llynges i'r Dwyrain Canol cyn dychwelyd i All Hallows ym 1944. Penderfynwyd ailadeiladu'r eglwys ac aeth Clayton ati gydag afiaith i godi arian yng Nghanada ac UDA. Ailgysegrwyd yr eglwys ym 1957. Wedi hynny bu am gyfnod yn gysylltiedig â mordeithiau Syr Francis Chichester a bendithiodd dri o'i gychod hwylio. Derbyniodd radd DD (Lambeth) er anrhydedd ym 1954. Bu farw yn Tower Hill ar 15 Rhagfyr 1972.